# Gweithgaredd Dysgu- Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr, gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n un o gyfres o naw yn ymwneud â Phatagonia ar gyfer CA3.

Sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia
Mordaith y 'Mimosa', 1865
Brodorion Patagonia a'r gwladfawyr Cymreig
**Dyddiau cynnar ar dir Patagonia**
O ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd - Patagonia
Dyddiau du - llifogydd ac allfudo
Ysgolion cynnar y Wladfa
Hanes yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia
Capeli ac eglwysi'r Wladfa

## Dyddiau cynnar ar dir Patagonia

## Gan Culturenet Cymru

## Cyflwyniad

*'... dechreuodd gofidiau a chaledi ein goddiweddyd yn aml a chyflym ... wedi ein rhoddi ar y lan mewn gwlad lom a phell oddi wrth gysuron gwareiddiad ...' Thomas Jones, Glan Camwy*

**Tasgau ac amcanion dysgu**

1. Gwanaco a rhea
2. Teithwyr
3. Y Tehuelche a'r gwladfawyr

Lawrlwytho'r Casgliad o ddelweddau a thaflenni gwaith ar gyfer y gweithgaredd hwn o Gasgliad y Werin Cymru

# Dyddiau cynnar ar dir Patagonia

*'... dechreuodd gofidiau a chaledi ein goddiweddyd yn aml a chyflym ... wedi ein rhoddi ar y lan mewn gwlad lom a phell oddi wrth gysuron gwareiddiad ...' Thomas Jones, Glan Camwy*

Yn fuan wedi i'r 'Mimosa' fwrw ei angor yn y Bae Newydd ar 27 Gorffennaf 1865, penderfynodd y Capten George Pepperrell, y meddyg Thomas Greene, a thua hanner dwsin o'r dynion adael y llong ac archwilio'r tir. Yn ôl yr hanes, Hugh Hughes (Cadfan Gwynedd) oedd y cyntaf o'r ymfudwyr i roi ei draed ar dir Patagonia. Rhedodd rhai o'r dynion ar y tir i weld mwy o'r wlad o'u cwmpas. Yng nghanol y cyffro a'r dathlu, collwyd Dafydd Williams, crydd ifanc o Aberystwyth. Buont yn galw amdano ac yn cynnau coelcerthi gyda'r nos yn y gobaith y byddai'n gweld golau'r tân, ond yn ofer. Ni ddaethpwyd o hyd i'w gorff am rai blynyddoedd.

Daeth mwyafrif yr ymfudwyr i'r lan ar 28 Gorffennaf 1865. Roedd yn ddiwrnod digon oer a gwlyb ac mae'n debyg i nifer ohonynt sylweddoli'n fuan iawn nad oedd y trefniadau a wnaethpwyd ar eu cyfer yn foddhaol. Ychydig iawn o gyfle a gafodd yr ymfudwyr i fwrw eu blinder - roedd angen dadlwytho eu heiddo o'r llong, a chwblhau'r gwaith o godi adeiladau. Dros y cyfnod hwn, arhosodd nifer o famau a phlant ar fwrdd y 'Mimosa', ac er i eraill gael lloches yn y stordy pren a oedd eisoes wedi ei gwblhau, bu'n rhaid i nifer fawr o'r ymfudwyr gysgu yn yr awyr agored.




Dyddlyfr Richard Ellis, clawr, 1865 [delwedd 1 o 16]

Wrth i rai o'r ymfudwyr ddechrau digaloni, penderfynwyd dechrau ar y gwaith o symud pawb o'r Bae i'r Dyffryn - taith o 37 milltir dros dir anial a charegog. Ar noson olaf mis Gorffennaf, daeth aelodau Cyngor y Wladychfa ynghyd i drafod y ffordd ymlaen a chytunwyd y dylai'r dynion ifainc arwain gan baratoi'r ffordd i'r Dyffryn ar gyfer y teuluoedd. Anfonwyd tair mintai, a gadawodd y gyntaf o dan arweiniad Edwin Cynrig Roberts ar 1 Awst. Gadawodd yr ail fintai, a oedd yn cynnwys seiri maen a choed, dridiau yn ddiweddarach, a dechreuodd y drydedd fintai ar ei thaith y diwrnod canlynol. Yn y cyfamser, hwyliodd Lewis Jones i Batagones ar fwrdd y 'Mary Helen' i gasglu rhagor o nwyddau.

Bu'r daith o'r Bae i Ddyffryn Chupat (a enwyd yn Cwmwy yn ddiweddarach) yn hynod o anodd i'r gwladychwyr newydd. Roedd y dynion yn flinedig yn dilyn y fordaith hir, ac yr oedd diffyg bwyd a diod yn ychwanegu at eu problemau. Roeddynt yn wynebu nifer o beryglon posibl, megis ymosodiad gan un o'r llwythi brodorol neu gan anifail gwyllt fel y pwma.

Cawsant lawer o anturiaethau a thrafferthion ar hyd y ffordd, ond rhywsut llwyddodd y dair fintai i gyrraedd pen y daith, sef safle hen amddiffynfa a enwyd yn 'Caer Antur'.

Dychwelodd Edwin i'r Bae Newydd, lle roedd gweddill yr ymfudwyr yn gwersylla. Yn ystod ei absenoldeb, bu farw pedwar ymfudwr (tri ohonynt yn blant), ac er y cafwyd priodas gyntaf y Wladfa ar 18 Awst, roedd yr awyrgylch yn drwm a digalon. Roedd pawb wedi edrych ymlaen yn eiddgar at ddychweliad Lewis Jones, ond roeddynt bellach yn dechrau anobeithio. O'r diwedd, gwelwyd llong y 'Mary Helen' yn y pellter, ynghyd â'r llong 'Rio Negro' a oedd yn cario catrawd o filwyr a cheffylau i'r Dyffryn.


R.B.W. MS 32.

LLYTHYRAU A DDAETHANT O'R SEFYDLWYR

YN Y

Wladva Gymreig



GWERINIAETH ARIANIN,

DEHEUDIR AMERICA.

COMPANIES' ACT, 1862.

Cwmni Ymfudol a Masnachol y Wladva Gymreig Cyfyngedig.

(THE WELSH COLONISING AND GENERAL TRADING COMPANY, LIMITED.)

SAWD, £50,000 MEWN 5,000 RHANAI £10 YR UN.

CYFARWYDDWYR.

CAPTAIN RICHARD DELAHOYDE, Ship Owner, North Parade, Aberystwyth.
MICHAEL DANIEL JONES, Esq., Bodiwan, Bala.
MR. OWEN EDWARDS, 22, Williamson Square, Liverpool.
" GRIFFITH WILLIAM THOMAS, Accountant, 7, Abbey Street, Chester.
" THOMAS WOOD, Estate Agent, 24, St. Werburgh Street, Chester.

BANKERS.
THE NATIONAL PROVINCIAL BANK OF ENGLAND.

COFIADUR TEITHIOL.
MR. DAVID LLOYD JONES, Ffestiniog.

COFIADUR CYFFREDINOL.
MR. THOMAS CADIVOR WOOD, 24, St. Werburgh Street, Chester.

AMCAN Y CWMNI hwn ydyw llogi, prynu neu adeiladu llongau hwylio neu ager-dd at gludo Ymfudwyr ac Eiddo i'r Wladva Gymreig; i brynu *stock* amaethyddol a'i werthu i'r Sefydlwyr; ac i Fasnachu ag unrhyw barth o'r Byd.

Ceir Rhagleni, Rheolau, holl Gyhoeddiadau y Cwmni, Ffurflau ymofyn Rhaneion, a phob hysbysrwydd, gan y Cofiadur Cyffredinol, T. CADIVOR WOOD, 24, St. Werburgh Street, Chester.

Casgliad o lythyrau a anfonwyd gan rai o'r gwladfawyr, 1865-6 [tudalen deitl, delwedd 1 o 3]

Roedd Lewis Jones wedi trefnu bod tua hanner y mamau a'r plant i gael eu cario ar fwrdd y 'Mary Helen' at geg Afon Chupat. Er mai taith diwrnod yn unig oedd hon, trôdd y cyfan yn hunllef i'r teithwyr gan i'r llong gael ei tharo gan storm. Nid oedd y llong yn addas ar gyfer cludo teithwyr a bu'n rhaid iddynt ddioddef amodau caled. Wedi pymtheng niwrnod ar y môr, daeth y 'Mary Helen' i olwg y tir. Roedd y teithwyr oll mewn cyflwr truenus ac yn dioddef o newyn a syched difrifol. Wedi iddynt ddod i'r lan, bu'n rhaid iddynt gerdded y chwe milltir olaf at Gaer Antur. Dychwelodd y 'Mary Helen' i'r Bae Newydd i gasglu gweddill y merched ac ail lwyth o gargo. Y tro hwn, dychwelodd y llong ymhen deuddydd. Yn ystod yr wythnosau nesaf, fodd bynnag, daeth canlyniadau'r fordaith gyntaf i'r amlwg. Dioddefodd nifer fawr o famau a phlant ifainc o salwch difrifol yn sgil y profiad, a bu farw nifer o fabanod.

Yn y cyfamser, roedd Lewis Jones wedi cyrraedd Caer Antur gydag un ar bymtheg o filwyr a'u harweinydd, Julián Murga. Roeddynt wedi teithio i Ddyffryn Chupat ar ran llywodraeth Ariannin i drosglwyddo tiroedd y Dyffryn i'r Cymry. Roedd tirfesurydd o'r enw Julio V. Díaz hefyd ymhlith y cwmni, ac ef a fu'n gyfrifol am rannu tiroedd y Dyffryn yn ffermydd bychain. Cynhaliwyd seremoni ffurfiol i awdurdodi sefydlu'r Wladfa, codwyd baner yr Ariannin, ac yna'r Ddraig Goch, a llofnodwyd dogfen yn datgan mai Pueblo de Rawson oedd enw'r dref - nid Caer Antur. Nid oedd y seremoni wrth fodd pawb, ond cydymffurfiodd yr holl ymfudwyr â'r drefn. Er hynny, Tre-Rawson oedd yr enw a gafodd ei arddel gan y Cymry yn hytrach na Pueblo de Rawson, o bosibl fel arwydd o'u hannibyniaeth barn.



***Cynllun o'r tai cyntaf yn Rawson, a wnaed yn wreiddiol gan R.J. Berwyn; copi gan Tegai Roberts***

Er gwaethaf yr anawsterau ymarferol, aeth y gwladfawyr ati ar unwaith i roi trefn ar eu cymuned newydd. Rhoddwyd y flaenoriaeth ar sicrhau cartrefi i'r holl deuluoedd a dechreuwyd adeiladu bythynnod syml o fwd, hesg a brwyn. Codwyd stordy pren, ac yn hwnnw y cynhaliwyd gwasanaethau crefyddol ar y Sul. Rhoddodd y gwladfawyr sylw i addysg plant hefyd a chodwyd adeilad pren ar gyfer yr ysgol ddyddiol gyntaf. Nid oedd amser i segura ac roedd pawb yn cael eu cadw'n brysur gyda gwahanol dasgau, megis clirio'r tir, trin yr anifeiliad a pharatoi bwyd. Dechreuodd Cyngor y Wladfa gyfarfod yn rheolaidd ac ymhen rhai misoedd, penderfynodd yr aelodau y dylid rhannu'r ffermydd rhwng y teuluoedd.

Roedd diffyg bwyd yn parhau i achosi pryder. Er bod y dynion yn cael peth llwyddiant wrth hela anifeiliaid gwyllt y paith, roedd cyflenwadau bwyd yn prysur ddiflannu. Gan i'r ymfudwyr gyrraedd y Wladfa yn hwyr yn y tymor, collwyd y cyfle i blannu cnydau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dechreuodd y sefyllfa edrych yn anobeithiol, a daeth nifer o'r gwladfawyr i'r casgliad mai'r ateb gorau fyddai iddynt adael y Dyffryn yn gyfan gwbl a symud i ardal fwy ffrwythlon, megis talaith Santa Fé yng ngogledd-ddwyrain yr Ariannin. Un o gefnogwyr pennaf y ddadl hon oedd y Parchedig Abraham Matthews.




Cerdyn post o'r drol gyntaf yn y Wladfa, c.1866

Tua'r un adeg, datblygodd rhwyg arall ymhlith y gwladfawyr ynghylch cynllun arfaethedig llywydd y Wladfa, Lewis Jones, i fasnachu 'guano'. Pan ddaeth yn amlwg na fyddai'r cynllun hwn yn dod ag elw i'r Wladfa fel sefydliad, ond yn hytrach i gwmni preifat a fyddai'n cael ei sefydlu gan Lewis Jones, cododd storm o brotest. Ymhen rhai dyddiau roedd Lewis Jones wedi colli ei swydd fel llywydd ac wedi gadael y Wladfa i fyw yn alltud yn Buenos Aires. Penderfynodd saith o wladfawyr eraill adael gydag ef, yn eu plith y llawfeddyg Thomas Greene. Yn y cyfamser, cyrhaeddodd y cyflenwadau bwyd hirddisgwyledig ac etholwyd William Davies yn lywydd newydd y Wladfa. Roedd cyrhaeddiad y cyflenwadau hyn yn ryddhad i'r gwladfawyr, ond yr oedd dyfodol y Wladfa yn parhau yn y fantol wrth i'r sôn am ymfudo i dalaith Santa Fé barhau.

Ffynonellau

R. Bryn Williams, Y Wladfa (Caerdydd, 1962)
E. MacDonald, Yr Hirdaith (Llandysul, 1999)

## Tasg 1. Gwanaco a rhea

Beth yw gwanaco a rhea?

## Tasg 2. Teithwyr

Trafodwch farn Michael D. Jones ac ymchwiliwch i'r ffordd y mae teithwyr yn cael eu gweld a'u trin ym Mhrydain heddiw

*Cwblhewch y daflen waith – Michael D. Jones*

## Tasg 3. Y Tehuelche a'r gwladfawyr

Sut berthynas oedd rhwng y Tehuelche a'r gwladfawyr?

*Cwblhewch y daflen waith –* Y Tehuelche a'r gwladfawyr

# Michael D. Jones

Trafodwch farn Michael D. Jones ac ymchwiliwch i'r ffordd y mae teithwyr yn cael eu gweld a'u trin ym Mhrydain heddiw.

*Credwn nad oes ond diflaniad llwyr o'u blaen, os na roddant i fyny eu bywyd crwydrol, a sefydlu mewn rhyw fan arbennig, arwain bywyd gwaraidd a chanolbwyntio ar fagu anifeiliaid a thrin y tir. Yn sicr, dyna yw eu hunig obaith. Fe fyddai'n braf pe bai'r Gwladfawyr yn gallu eu darbwyllo i wneud hynny.*

Ymweliad Michael D. Jones a David Rees â'r Wladfa Gymreig (Y Bala, 1882)

| Ymchwiliad |
|---|
| |

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopio am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg

# Y Tehuelches a'r Gwladfawyr



## Llwyth y Tehuelche - nodweddion

## Llwyth y Tehuelche - ffordd o fyw

## Perthynas â'r gwladfawyr

Hawlfraint: Culturenet Cymru - gellir ei gopïo am ddim at ddiben ysgolion
http://www.glaniad.com/addysg